



NEWYDDION BRENIG

EFFAITH GADARNHAOL BRENIG WIND LTD AR GYMUNEDAU....

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cynnig bron i £4 miliwn, dros gyfnod o 25 mlynedd, i brosiectau cymunedol yn yr ardal budd. Mae'r ardal gymwys yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn ymestyn o Lanelwy yn y gogledd hyd at Faerdy, ger Corwen yn y de ac o Afon Clwyd yn y dwyrain at Fynydd Hiraethog, Cerrigydrudion a rhannau uchaf Dyffryn Conwy. Mae map o'r ardal sy'n elwa ar wefan Cadwyn Clwyd.

Eglurodd David Heelan o Brenig Wind Ltd:

"Mae'n gyfle gwyh i gymunedau cefn gwlad elwa. Mae Cadwyn Clwyd, y gweinyddwr cronfeydd lleol, eisoes wedi cyflwyno ymhell dros £300,000 i dros 50 o wahanol brosiectau yn yr ardal yn ystod pedwar rownd cyllido. Roedd modd i grwpiau cymunedol geisio am gyllid i gynnal ystod o wahanol brosiectau gan eu cynorthwyo hefyd i ddenu arian ychwangeol."

"Mae'n bleser gennym ni weld ehangder ac ansawdd y prosiectau cymunedol sydd wedi'u cefnogi gan Brenig ynghyd â'u heffaith gadarnhaol ar y cymunedau hynny."

"Caiff y ceisiadau eu cyflwyno ger bron panel grantiau lleol sy'n gyfrifol dros wneud y penderfyniadau terfynol o ran lle a sut caiff y cyllid ei wario" ychwanegodd David.

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cynnal rowndiau cyllido sy'n cyd-daro gyda chyfarfodydd panel. Bydd y rownd nesaf yn agor mis Rhagfyr 2021 ac mae rhagor o wybodaeth ar wefan Cadwyn Clwyd www.cadwynclwyd.co.uk/brenig.

BU I GRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD GEFNOGI:



*Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency*

53

O GRWPIAU
CYMUNEDOL

55

O BROSIECTAU
CYMUNEDOL

£333,362

O GRANTIAU
CYMUNEDOL



HWB I GLWB PÊL DROED....

Mae clwb pêl droed uchelgeisiol yn Sir Ddinbych wedi cyffroi'n lân wrth iddyn nhw baratoi i gyflwyno'u cyfleusterau newydd sbon gan gynnwys system llifoleuadau newydd o safon.

Mae goleuadau Clwb Tref Rhuthun yn barod i'w goleuo gyda 12 o golofnau goleuadau LED newydd ar gae'r tîm cyntaf a'r caeau wrthgefn yn ogystal â'r cae hyfforddi.

Bu modd gosod y llifoleuadau newydd ar Gaeau Chwarae Coffa'r clwb gyda diolch i Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind LTD am grant o £10,000. Llwyddodd y clwb i ennill cyfanswm o dros £150,000 i gyd mewn cymorth grant i ailwampio'u cyfleusterau.

Aeth noddwyr ac aelodau'r clwb ati i godi gweddill yr arian ac fe ddywedodd y cadeirydd, Andy Edwards: "Mae'n edrych yn anhygoel - doedd gennym ni ddim llifoleuadau o'r blaen ond fe fyddan nhw'n barod inni ar gyfer y tymor newydd.

"Mae safon ein cyfleusterau'n rhagorol erbyn hyn ac fe fydd modd i'r Tîm Cyntaf a'r rheiny sy'n chwarae ar y caeau wrthgefn a'r cae hyfforddi elwa ohonyn nhw. Fodd bynnag, ni fyddwn yn chwarae yma am ychydig wythnosau gan ein bod yn rhannu'r caeau gyda Clwb Criced Rhuthun. Pe baem ni'n cael ein dyrchafu i lefel uchaf pêl droed Cymru, Uwch Gynghrair Cymru, buasai'n ddigon hawdd inni uwchraddio'r cyfleusterau," ychwanegodd Andy.



CLWB BEICIO HIRAETHOG

Bu i Clwb Beicio Hiraethog brynu tair ar ddeg beic trydan gyda diolch i Gronfa Brenig am grant o £7,000.

Soniodd trefnydd y clwb, Huw Rawson, caiff y beiciau eu defnyddio'n rheolaidd, yn enwedig yn ystod y penwythnosau. Dywedodd hefyd:

“Mae'n gyfle gwych i fudiadau lleol fanteisio ar y grantiau hyn. Bu'n gymorth sylweddol inni ac mae llawer iawn yn mwynhau defnyddio'r beiciau, yn enwedig yn ystod y penwythnosau.

“Rydym yn byw mewn ardal fryniog dros ben a heb hwb beic trydan, mae'n debyg y buasai llawer o bobl yn gyndyn o roi cynnig ar feicio. Fodd bynnag, mae'r modur trydan yn help mawr gyda'r holl fryniau ac fe allwch chi benderfynu faint o hwb sydd ei angen arnoch chi - y peth pwysicaf ydy eich bod chi'n mentro.”

NEUADD BENTREF GROES AR EI NEWYDD WEDD!

Yn dilyn cau'r ysgol leol, Ysgol Rhydgaled yn 2014, mae'r neuadd erbyn hyn yn gartref i weithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardaloedd y Groes, Bylchau, Rhydgaled a Rhiw. Bu diffyg buddsoddiad yn y neuadd yn ystod y 25 mlynedd diwethaf felly'r nod oedd ailwampio'r adeilad i allu parhau i gynnig canolfan gymunedol addas ac o safon i drigolion yr ardal. Roedd hefyd angen sicrhau bod yr adeilad a'i gyfleusterau'n dal yn gystadleuol i allu cadw a denu mwy o ddefnyddwyr. Bu i Brenig Wind Ltd gynorthwyo'r neuadd gyda grant o £10,000 lle'r oedd modd adfer y neuadd a gosod lloriau a chegin newydd o'r diwedd.

Bu i'r pandemig COVID effeithio ar gymunedau cefn gwlad yn sylweddol ac mae'r angen am gyfleusterau cymunedol yn fwyfwy pwysig erbyn hyn.

“Bu'r cyllid gan Brenig Wind Ltd yn annatod i uwchraddio safon y cyfleusterau yn y neuadd. Yn sgil derbyn y cyllid, bu modd inni lanhau a thrin llawr coed a chodi ac adfer llawr y cyntedd. At hyn, byddwn yn mynd rhagddi i adfer y gegin. Erbyn hyn mae'r adeilad yn addas i'w bwrpas ac mae'r pwyllgor a'r gymuned yn ddiolchgar dros ben am y cyfraniad ariannol i wella'r cyfleuster” dywedodd Meinir Jones - Aelod o'r Gymuned.



MAE PROSIECTAU CYFFROUS ERAILL A GEFNOGWYD GAN GRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD YN CYNNWYS:

Canolfan Uwchaled a dderbyniodd £9,587 tuag at ailwampio bar goffi a stordy yn y gegin ar gyfer Canolfan Gymunedol Uwchaled. Bydd hyn yn fodd i ddefnyddwyr y ganolfan gymunedol fanteisio ar gyfleusterau cegin newydd sbon.

Prosiect Cae Chwarae Clocaenog a dderbyniodd £8,935 tuag at osod cyfarpar cae chwarae newydd yn lle'r hen rai oedd wedi'u difrodi. Bu i storm ddifrodi'r cyfarpar nes nad oedd modd eu defnyddio mwyach felly fe fyddai'r grant gan Brenig yn caniatáu i blant yr ardal ddefnyddio'r cae chwarae unwaith eto.

Cyngor Cymuned Nantglyn a dderbyniodd £2,002 i osod diffibriliwr yn yr hen giosg ffôn a fyddai'n cynnig cymorth hanfodol i achub bywydau'r rheini sydd ei angen.

Cylch Meithrin Clocaenog a dderbyniodd £7,075 tuag at y costau i symud o Ysgol Carreg Emlyn i Neuadd yr Eglwys ac i brynu adnoddau a chyfleusterau addysg. Mae'r cylch meithrin yn cynnig addysg feithrin cyn ysgol i blant yr ardal.

Ymatebwyr Cyntaf Uwchaled a dderbyniodd £2,765 tuag at gyfarpar hanfodol i ymatebwyr cyntaf yn nalgylch Brenig. Mae'r ymatebwyr cyntaf i gyd yn wirfoddolwyr ac maen nhw'n cynnig gwasanaeth hanfodol i'r gymuned.

Menter Nefydd a dderbyniodd £9,960 i godi stand i wylwyr a chreu llwybr ger y cae pêl droed a fyddai'n fodd i'r cefnogwyr gyrraedd y cae yn rhwydd a chysgodi yn ystod gemau pêl droed.

Clwb Rygbi Dinbych a dderbyniodd £8,000 tuag at gostau'r llifoleuadau ar y cae hyfforddi. Mae hwn yn brosiect aml-gyllidol a fyddai'n cynnig llifoleuadau LED anhygoel yn ystod sesiynau hyfforddi ar gaeau'r clwb rygbi.

Ffynnon Sant Dyfnog, Llanrhaeadr a dderbyniodd £3,161 tuag at greu llwybr ar y safle cymunedol hanesyddol. Mae ffynnon Sant Dyfnog yn safle pererindod, yn fan harddwch lleol ac yn hafan i fywyd gwylt.

Ynghyd â £4,288 tuag at gostau sefydlu **Clwb Dewiniaid Digidol Cymunedol Pentrefoelas**, clwb digidol cymunedol ar ôl ysgol newydd i blant a gweddill y gymuned allu datblygu a hybu eu sgiliau digidol.

GALLWCH WELD MWY O FANYLION AM YR HOLL GRANTIAU WEDI'U CEFNOGI GAN GRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD AR:
WWW.CADWYNCLWYD.CO.UK/BRENIG



Caiff y dyddiadau ceisio ar gyfer y chweched rownd eu cyflwyno ar wefan Cadwyn Clwyd yn y man. Mae mwy o wybodaeth ar brenig@cadwynclwyd.co.uk neu www.cadwynclwyd.co.uk

CANLLAWIAU CYLLIDO



Yr Ardal Fudd:

- Yr ardal fudd yw'r cymunedau hynny yn Sir Ddinbych a Chonwy sydd agosaf at safle Brenig Wind Ltd.
- Y cymunedau hynny sydd o fewn radiws o 10 cilomedr o Fferm Wynt Brenig fydd yn creu'r ardal fudd.
- Mae'n bosibl y gellir cefnogi prosiectau yn yr ardal allanol o radiws 15 cilomedr, ar yr amod eu bod yn gallu arddangos yn glir sut y gallant greu budd i'r cymunedau yn yr ardal 10 cilomedr fewnol.
- Mae map o'r ardal fudd ar gael ar www.cadwynclwyd.co.uk

Trothwyon y Grantiau

- grant bychan o hyd at £10,000, a
- grant mawr o £10,000 to £50,000

Pwy All Wneud Cais?

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cyngorau Cymuned / Cyngorau Tref
- Mentrau cymdeithasol, ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw (gan gynnwys undebau credyd)
- Cwmnïau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau y mae'r gymuned yn berchen arnynt
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau'r trydydd sector

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cael ei gweinyddu gan Cadwyn Clwyd. Am wybodaeth bellach cysylltwch â brenig@cadwynclwyd.co.uk / 01490 340500 / www.cadwynclwyd.co.uk